Adroddiad i'r	**Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**
Dyddiad y cyfarfod:	**28 Ebrill 2021**
Aelod Arweiniol / Swyddog	**Y Cyng. Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol**
Awdur yr Adroddiad:	**Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol Tania Silva, Rheolwr Fframwaith**
Teitl	**Caffael Lles yng Nghymru – Adolygiad i sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hysbysu'r broses caffael yng Nghymru.**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu'r Pwyllgor â'r adroddiad allanol gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar eu hadolygiad i gaffael Lles yng Nghymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn unrhyw adroddiadau llywodraethol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

2.2. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â beth mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud ar hyn o bryd i fodloni argymhellion yr adroddiad Caffael Lles yng Nghymru ac amlygu'r meysydd lle mae angen i ni ymgorffori newidiadau er mwyn bodloni argymhellion yr adroddiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y manylion o fewn yr adroddiad a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, ac a fydd yn cael eu cymryd, er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd o dan a.22 i gymryd pob cam rhesymol i ddilyn camau a nodir mewn argymhelliad a.20, ac i gyhoeddi ymateb.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Atodir adroddiad y Comisiynydd yn Atodiad 1. Yn gyffredinol mae hwn yn adroddiad cadarnhaol o safbwynt y Cyngor, er bod lle bob amser i wella'n barhaol, gweler adran 3.3. ac yn benodol, tudalennau 28 a 32.

4.2 Mae'r gwasanaeth Caffael Cydweithredol ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint wedi bod yn ei le ers mis Gorffennaf 2014 ac mae'r adroddiad yn cydnabod fod gwahaniaethau rhwng yr Awdurdodau a bod heriau weithiau o ran gweithredu ar y cyd ag Awdurdod arall, a phrynu ar y cyd. Mae camau mawr wedi eu cymryd dros y 6 mis diwethaf gan y Gwasanaeth Caffael ar y cyd i hwyluso a gwella'n dull ar y cyd, ac i gefnogi gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau'r ddau Gyngor. Mae'r tîm caffael i gychwyn ar ymarfer hunan asesu o ran ei gyfres sgiliau cydweithio ei hun, a lle mae bylchau, ond mae'n bwysig nodi fod y gwasanaeth caffael yn wasanaeth cefnogi ac mai gwasanaethau sydd â'r cyfle i gydweithio a chaffael i gefnogi lles. Y bwriad yw defnyddio dull hunan asesu a phecyn gwaith y Sefydliad ar gyfer Cydweithredu. Bydd hyn yn cael ei dreialu o fewn y tîm a bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei fwydo'n ôl i'r Bwrdd Caffael ar y Cyd i ystyried y ffyrdd gorau o ddefnyddio'r mewnwelediad hwn ar draws y ddau Awdurdod.

4.3 Dylai Aelodau nodi sefydliad a chynnydd y Canolbwynt Buddion Cymunedol o safbwynt cefnogi bwriadau'r Ddeddf.

4.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion y mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw ymhellach, fel yr arweiniad i sicrhau fod pob sefydliad sector cyhoeddus yn darparu Lles o fewn eu gweithgareddau caffael – gweler y grynodeb, adran 3.2 tudalen 12.

4.5 Mae'r Ddeddf wedi darparu'r caniatâd deddfwriaethol, a dyletswydd, i gynnwys ystyriaethau a disgwyliadau o ran lles presennol ac yn y dyfodol mewn gweithgarwch caffael a chylchoedd contractau. Mae'r Ddeddf yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth ac yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus drawsnewid y ffordd mae caffael yn cael ei gynllunio a'i gyflawni yng Nghymru.

4.6 Pleidleisiodd Cyngor Sir Ddinbych i gymryd rhan yn yr Adolygiad Adran 20 er mwyn cael manylion ar sut mae ymdrechion i ymgorffori'r Ddeddf i'w penderfyniadau caffael yn helpu'r Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill i fodloni neu i geisio bodloni eu hamcanion lles ac i ddeall ymhellach sut gall penderfyniadau caffael a chamau gweithredu perthnasol cyrff cyhoeddus effeithio'r hir dymor. Mae caffael yn un o'r saith maes corfforaethol i'w newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf ac mae'n faes allweddol o ffocws i gyrff cyhoeddus o ran bodloni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.

4.7 Mae'r adolygiad yn cydnabod fod prosesau caffael cenedlaethol wedi gwella yn sylweddol dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Mae gormod o ffocws ar brosesau a dim digon ar ganlyniadau.
- Canolbwyntio mwy ar gaffael lles gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau a mesur beth sy'n bwysig.
- Cydnabod y bu'r ffaith y gall gostio mwy, o leiaf yn y byr dymor, yn rhwystr allweddol i gaffael cynaliadwy, yn enwedig pan nad ystyriwyd costau oes gyfan.

4.8 O ran prosesau a chanlyniadau, i raddau helaeth mae dwylo'r Cyngor wedi eu clymu gan fod yn rhaid iddo gaffael yn unol â Rheoliadau Caffael y Sector Cyhoeddus 2015; deddfwriaeth sydd wedi tarddu o Gyfarwyddebau Caffael yr UE. Mae cyfle hanesyddol a sylweddol rŵan yn bodoli o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, wrth ymgynghori ar reoliadau caffael newydd. Mae cyfle gan Lywodraethau Canolog a Datganoledig rŵan i ddylunio rheoliadau sy'n darparu'n well ar gyfer ein cymunedau a'n busnesau.

4.9 Mae unrhyw ymarfer caffael dros £25,000 yn cychwyn gyda Ffurflen Gomisiynu, sy'n cyfarwyddo'r Swyddog i ystyried a chofnodi eu hystyriaethau a'u bwriadau o safbwynt nifer fawr o feysydd. Mae hyn yn ran bwysig o'r broses i annog a chefnogi busnesau i feddwl y tu hwnt i'r angen prynu uniongyrchol. Atodiad copi o'r Ffurflen Gomisiynu yn Atodiad 2 er gwybodaeth.

4.10 Mae'r camau sy'n cael eu cymryd, neu sydd i'w cymryd, i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Comisiynydd wedi eu nodi yn Atodiad 3. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru ar ôl ymgynghori ar strategaeth gaffael ddiwygiedig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cyngor wedi gosod ei flaenoriaethau corfforaethol er mwyn bodloni dyletswyddau'r Ddeddf; mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mae gan gaffael rôl bwysig i'w chwarae er mwyn cefnogi'r polisi hwn a blaenoriaethau corfforaethol ehangach.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid yw'n bosib mesur cost caffael i sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol mewn un adroddiad gan fod amgylchiadau unigol i bob gweithgaredd caffael. Mae'n bosib fod peth gweithgaredd sy'n cefnogi lles yn costio mwy o safbwynt ariannol na'r opsiwn rataf er enghraifft; bydd angen i rai gwasanaethau ystyried y gwerth ychwanegol y gellid ei gyflawni yn ogystal ag un angen prynu. Mewn rhai sefyllfaoedd gallai cynnydd mewn cost ar gyfer y gwasanaeth caffael olygu buddion lles llawer mwy i wasanaeth arall. Mae'r strategaeth gaffael yn cael ei datblygu ymhellach yn hyn o beth, fel y gellir ystyried unrhyw densiwn yn llawn a bod dull gweithredu cyson yn cael ei ddilyn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cysylltwyd â'r Bwrdd Caffael Cydweithredol, sy'n cynnwys aelodau arweiniol a chafodd y ddau Swyddog Monitro weld yr adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi.

Wrth fodloni'r argymhellion wrth symud ymlaen, ymgynghorir â budd-ddeiliaid allweddol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n debygol y bydd effaith parhaus sicrhau ein cynnydd o ran caffael yn erbyn nod deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynyddu costau. Ar gyfer rhai prosiectau gallai hyn olygu lleihau maint y prosiectau, mewn eraill efallai bydd rhaid derbyn bod angen canfod cyllid ychwanegol. Bydd angen parhau i asesu bob penderfyniad gwariant yn unigol ac ystyried y cyfyngiadau cyllidebol ehangach.

10. 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg o beidio cymryd sylw o argymhellion yr adroddiad yw y gallai'r Comisiynydd ymyrryd, ac yn fwy na hynny ni fyddai'r Cyngor yn bodloni ei ddyletswyddau i roi cenedlaethau'r dyfodol wrth galon ei weithgarwch.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

a.22 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.